# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR, PORT TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau'n bresennol:** **Dydd Mawrth, 28 Mawrth 2023**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod C.James** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod J.Jones** |
| **Cynghorydd**: | S.Paddison, D.Keogh, R.Davies, T.Bowen, C.James, C.Jordan, C.Phillips, S.Thomas a/ac C.Clement-Williams |
| **Aelod CDU/CDLl:** | Aelod W.F.Griffiths |
| **Aelodau Lleol:** | Aelod S.E.Freeguard (Port Talbot;) a/ac S.Rahaman (Port Talbot;) |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Davies, G.White, R.MacGregor, J.Weeks, M.Griffiths a/ac C.Plowman |

---

1. **CROESO A GALW'R ENWAU**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2022 fel cofnod cywir.

4. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD (AU) SAFLE O'R CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

Gofynnwyd am drefnu ymweliad safle â safle hen Ysgol Gyfun Isaf Dyffryn (Cais Rhif P2022/1063).Nodwyd mai'r rheswm dros yr

ymweliad safle oedd pryderon ynghylch diogelwch priffyrdd a cherddwyr.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag amseriad priodol ar gyfer yr ymweliad safle, a phwysigrwydd ymweld â'r safle yn ystod oriau prysur y dydd, lle byddai'n gynrychioliadol o'r pryderon a godwyd. Cadarnhawyd na fyddai'r ymweliad safle yn cael ei drefnu yn ystod gwyliau'r Pasg.

**PENDERFYNWYD:** Trefnu ymweliad safle â safle hen Ysgol Isaf Dyffryn, Heol Talcennau, Port Talbot SA13 1EP.

## 5. CAIS P2022/1063 - SAFLE BLAENOROL YSGOL ISAF DYFFRYN

Yn dilyn cymeradwyo ymweliad safle â hen safle Isaf Dyffryn (Cais Cynllunio Rhif P2022/1063), cytunwyd i ohirio'r adroddiad tan gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio yn y dyfodol, unwaith y byddai'r ymweliad safle wedi'i gynnal.

**PENDERFYNWYD:** Gohirio Cais Rhif P2022/1063 tan gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio yn y dyfodol, ar ôl cwblhau'r ymweliad safle y cytunwyd arno.

## 6. APELIADAU Y PENDERFYNWYD ARNYNT - 05/12/2022 TAN 20/03/2023

Nododd yr Aelodau'r rhestr o Apeliadau y Penderfynwyd arnynt o 5 Rhagfyr i 20 Mawrth 2023.

**PENDERFYNWYD:** Dylid nodi'r adroddiad.

## 7. APELIADAU A DDERBYNIWYD - 05/12/2022 TAN 20/03/2023

Nododd yr Aelodau y rhestr o Apeliadau a Dderbyniwyd rhwng 5 Rhagfyr 2022 a 20 Mawrth 2023.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

## 8. PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG - 05/12/2022 TAN 20/03/2023

Nododd yr Aelodau'r rhestr o Benderfyniadau Dirprwyedig o 5 Rhagfyr i 20 Mawrth 2023.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

9. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**